**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1570
Ein cyf/Our ref JMHSC/00029/26

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

12 Chwefror 2026

Annwyl Carolyn,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Ionawr ynglŷn â Deiseb P-06-1570 Cyflwyno Cyfraith Martha yng Nghymru i warantu hawl cleifion a theuluoedd i gael ail farn.

Ar 3 Hydref 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gylchlythyr Iechyd Cymru: Mabwysiadu dull uwchgyfeirio sy'n rhoi lle canolog i'r claf a'r teulu. Mae'r Cylchlythyr hwn yn nodi ein disgwyliadau i fyrddau iechyd weithredu dull uwchgyfeirio cyson – mae hyn yn debyg i Reol Martha, ac yn galluogi unigolion a'u teuluoedd i ofyn am gymorth a chyngor ar unwaith os ydynt yn poeni bod iechyd y claf yn dirywio.

Yng Nghymru, yr enw ar y hyn yw "Call4Concern". Mae'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o gynlluniau peilot presennol yng Nghymru a modelau rhyngwladol megis Rheol Ryan yn Awstralia, ac mae'n cyd-fynd ag egwyddorion Rheol Martha yn GIG Lloegr.

Gwnaed y penderfyniad i fabwysiadu'r enw Call4Concern i anrhydeddu etifeddiaeth nid yn unig teulu Mills ond hefyd y teuluoedd eraill sydd wedi hyrwyddo pwysigrwydd gwrando ar deuluoedd a chleifion. Nid yw hyn yn lleihau cyfraniad hanfodol teulu Mills, y mae eu heiriolaeth ddiflino wedi chwarae rhan sylweddol wrth symud y gwaith hwn yn ei flaen.

Gwelwyd cynnydd sylweddol eisoes yn 2025 drwy weithredu sgoriau rhybudd cynnar sydd wedi'u safoni ar gyfer helpu i gydnabod dirywiad acíwt a sepsis posibl yn gynnar a'u rheoli mewn modd cyson ar draws lleoliadau gofal iechyd yng Nghymru.

Disgwylir i Call4Concern gael ei gyflwyno eleni ym mhob lleoliad cleifion mewnol, a'i weithredu'n llawn rhwng Medi 2026 a Mawrth 2027. Unwaith y bydd wedi'i weithredu'n llawn, bydd ar gael ym mhob lleoliad cleifion mewnol sy'n darparu gwasanaethau oedolion, pediatrig, newyddenedigol, a mamolaeth yng Nghymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru arall, a gyhoeddwyd ar 8 Ionawr 2026: [Call4Concern: amserlenni a chyfrifoldebau](), yn nodi'r disgwyliadau clir ar gyfer byrddau iechyd ynghylch arweinyddiaeth, amserlenni cyflawni, ac atebolrwydd o ran gweithredu.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gryfhau diogelwch cleifion a gwella canlyniadau gofal iechyd i bobl Cymru, gan sicrhau bod cleifion a theuluoedd yn cael eu clywed a bod modd sicrhau gweithredu prydlon pan fo ganddynt bryderon.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care